| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Dylunio cerbyd y dyfodol |
| Disgrifiad: | Mae'r dysgwyr yn creu cerbyd y dyfodol |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 Gwaelod ac Uchaf |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Ysgrifennu<br>**Ysgrifennu'n gywir**<br>* Iaith<br>Bl3/Bl4/Bl5/Bl6<br>defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol.<br><br>*Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen.<br>Bl3<br>• cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml<br>Bl4<br>• amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau<br>• defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir<br>Bl5<br>• defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol, gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos,<br>Bl6<br>• defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith<br>• defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir |
| Testun Dylan Thomas | amh. |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Gwefan ryngweithiol i ddangos adnoddau<br>**Dolenni defnyddiol**<br>**Amgueddfa Cyflymder**<br>• http://www.carmarthenshire-pages.co.uk/attractions/museum_of_speed.html http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/addysg/amgueddfeydd/AmgueddfaCyflymder/Pages/MuseumofSpeed.aspx<br>**Fideo o Babs ar draeth Pentywyn 1927**<br>• http://www.britishpathe.com/video/race-for-speed-record-1/query/race+for+speed+record<br>**Fideo yn dangos Dyluniadau ar gyfer Ceir y Dyfodol**<br>• http://www.youtube.com/watch?v=jkDVnfzYBeA<br>**Fideo yn dangos car o Gymru wedi'i yrru gan ynni solar ar Newsround**<br>• http://www.bbc.co.uk/newsround/20025147 |

| | |
|---|---|
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Esboniwch, pan oedd Dylan Thomas yn yr ysgol yn Abertawe, torrodd J.G. Parry-Thomas y record y byd am Gyflymder ar y Tir mewn car o'r enw Babs ar Draeth Pentywyn yn Ne<br>Cymru. Ymchwiliwch i Babs a thrafod y car.<br>• Trafodwch beth fyddai pobl yn 1925 yn ei feddwl petaech chi'n dweud wrthyn nhw y byddai cerbydau a fyddai'n gallu mynd â phobl i'r lleuad yn y dyfodol, a cheir a allai gyrraedd cyflymder o 270 mya.<br><br>• Ymchwiliwch i sut mae cerbydau'n cael yr ynni i'w gyrru heddiw a thrafod hyn, e.e. ceir a threnau trydan, rocedi, cerbydau wedi'u gyrru gan egni'r haul.<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau, yn dyfeisio cerbydau'r dyfodol.<br>• Y dysgwyr yn trafod y meini prawf ar y daflen Dylunio<br>Cerbyd y Dyfodol ac yna'n ei llenwi.<br>• Y dysgwyr yn creu eu cerbydau unigol ar gyfer y dyfodol - tynnu llun a'i labelu.<br>• Y dysgwyr yn ysgrifennu am eu cerbyd gan esbonio'r defnydd a fwriedir, y deunyddiau<br>y mae wedi'i wneud ohonyn nhw ac unrhyw nodweddion arbennig sydd ganddo.<br>• Y dysgwyr i gyflwyno eu cerbydau i weddill y dosbarth. |
| Gweithgaredda u estyn: | • Gallai'r dysgwyr greu eu cerbydau eu hunain mewn grŵp gan ddefnyddio deunyddiau<br>• wedi'u hailgylchu.<br>• Gallai'r dysgwyr ddefnyddio batris i edrych ar ffyrdd o yrru'r cerbydau y maen nhw'n<br>• eu creu.<br>• Mae cyfleoedd i edrych ar raddfa drwy greu dyluniad wrth raddfa o'u cerbyd. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | amh. |